

Lles Anifeiliaid: Rhoi Rheoliad yr UE ar Les Anifeiliaid wrth eu Cludo (EC) rhif 1/2005 ar Waith - Prif Ofynion

Dyma grynodedb o'r prif ofynion. Dylech ddarllen hwn law yn llaw â Rheoliad y Cyngor rhif 1/2005 - ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithgareddau tebyg a'r Cyfarwyddbau diwygio.

- Eithriadau i'r Rheoliad
- Anifeiliaid na chewch eu cludo
- Gofynion cludo ar deithiau hyd at 65km o hyd
- Tystysgrif awdurdodi cludwyr ar gyfer teithiau dros 65km a llai nag 8 awr
- Tystysgrif awdurdodi cludwyr ar gyfer teithiau o fwy nag 8 awr
- Hyfforddiant a chymwyseddau i yrwyr a'u cynorthwywyr ac i staff canolfannau crynhoi
- Gofynion penodol ar gyfer ceffylau

Eithriadau i'r Rheoliad

Nid yw'r Rheoliad yn effeithio ar gludo'r anifeiliaid canlynol:

- Cludo anifail at bwrpas heblaw gweithgarwch economaidd; neu
- Cludo anifail i bractis neu filfeddygfa o dan gyngor milfeddygol; neu
- Anifail unigol, sy'n teithio gyda'i berchennog neu berson cyfrifol arall ac sy'n ffit ar gyfer y daith; neu
- Anifeiliaid anwes sy'n teithio gyda'u perchennog.

Anifeiliaid na chewch eu cludo

- **Anifeiliaid nad ydynt yn ffit**
Darllenwch Atodiad 1 Pennod 1 Rheoliad y Cyngor 1/2005
- **Anifeiliaid ifanc iawn**
e.e. lloi o dan 10 niwrnod oed, perchyll o dan dair wythnos oed ac ŵyn o dan wythnos oed, heblaw ar deithiau llai na 100km.
- **Lloi o dan 14 diwrnod oed**
- ar deithiau o fwy nag 8 awr o hyd
- **Anifeiliaid beichiog**
- nid yw anifeiliaid beichiog yn ffit i deithio yn ystod 10% olaf eu cyfnod beichiogrwydd ac am wythnos ar ôl geni

- **Cathod a chŵn o dan 8 wythnos oed**

- at bwrpas masnachol, oni bai eu bod yn teithio gyda'r fam

Gofynion cludo ar deithiau hyd at 65km o hyd

Nid oes rheidrwydd ar gludwyr i gael tystysgrif cludo na mynd am hyfforddiant ac ennill cymhwyster. Er hynny, maen nhw'n gorfod cydymffurfio â'r rheolau technegol ar gludo anifeiliaid sy'n ffit i deithio, y dull teithio a'r drefn cludo. Darllenwch Reoliad y Cyngor 1/2005.

Tystysgrif awdurdodi cludwyr ar gyfer teithiau dros 65km a llai nag 8 awr.

Bydd y dystysgrif mewn grym am 5 mlynedd ac yn cael ei rhoi i gludwyr sy'n gallu cydymffurfio â'r canlynol:

- Bod y cludwr yn fusnes cydnabyddedig ac os yw'n fusnes o'r tu allan i Brydain, bod ganddo gynrychiolaeth yn y wlad hon
- Bod y cludwr yn gallu profi bod ganddo staff, offer a threfniadau addas i gludo anifeiliaid yn unol â'r rheoliad newydd
- Nad yw wedi torri deddfwriaeth lles anifeiliaid yn y 3 blynedd cyn gwneud cais am y dystysgrif

Tystysgrif awdurdodi cludwyr ar gyfer teithiau o fwy nag 8 awr

Bydd y dystysgrif mewn grym am 5 mlynedd ac yn cael ei rhoi i gludwyr sy'n gallu cydymffurfio â'r canlynol:

- Bod y cludwr yn fusnes cydnabyddedig ac os yw'n fusnes o'r tu allan i Brydain, bod ganddo gynrychiolaeth yn y wlad hon
- Bod y cludwr yn gallu profi bod ganddo staff, offer a threfniadau addas i gludo anifeiliaid yn unol â'r rheoliad newydd
- Nad yw wedi torri deddfwriaeth lles anifeiliaid yn y 3 blynedd cyn gwneud cais am y dystysgrif

Rhaid i'r cludwr ddarparu:

- tystysgrifau dilys bod cerbydau a chynwysyddion wedi'u cymeradwyo
- manylion y drefn y mae'n ei defnyddio i olrhain a chofnodi symudiadau ei gerbydau ac ar gyfer cysylltu â'i yrwyr ar unrhyw adeg
- cynlluniau wrth gefn pan geir argyfwng
- o 2008, tystysgrifau cymhwysedd dilys ar gyfer gyrwyr a'u cynorthwywyr

- Bydd yn rhaid ffitio offer llywio â lloeren ar bob cerbyd **newydd** a ddefnyddir i gludo ceffylau (heblaw am geffylau sydd wedi'u cofrestru) neu anifeiliaid fferm. **Bydd gofyn rhoi offer llywio ar bob cerbyd (hen a newydd) a ddefnyddir i gludo ceffylau (heblaw ceffylau wedi'u cofrestru) neu anifeiliaid fferm o 2009**

Hyfforddiant i yrwyr a'u cynorthwywyr ac i staff canolfannau crynhoi

Erbyn 5 Ionawr 2008, bydd gan **bob gyrrwr neu gynorthwy-ydd** sy'n gyfrifol am gludo anifeiliaid fferm, ceffylau a dofednod dros 65 km dystysgrif cymhwysedd

Ni fydd angen tystysgrif ar staff **canolfan grynhoi** ond fe fydd angen iddynt fynd am hyfforddiant.

Bydd y **cyrsgiau hyfforddi** yn ymdrin ag agweddau technegol a gweinyddol y rheolau ar amddiffyn anifeiliaid wrth eu cludo. Mae'r agweddau hynny'n cynnwys:

- amodau cyffredinol ar gyfer cludo anifeiliaid
- y dogfennau angenrheidiol
- beth yw ffit i deithio
- cynllunio taith
- cyflwr yr anifail, ymddygiad yr anifail, beth yw stres a bwydo'r anifail
- trin anifeiliaid
- effaith eu cludo ar les anifeiliaid ac ar ansawdd eu cig
- gofalu am anifeiliaid mewn argyfwng
- diogelwch staff sy'n trin anifeiliaid

Rhaid pasio asesiad annibynnol cyn cael **tystysgrif cymhwysedd**.

Gofynion penodol ar gyfer ceffylau

- Ar deithiau o fwy nag 8 awr neu ar gerbydau mewn fferi Ro-Ro, rhaid rhoi partiwn unigol i bob ceffyl (ond caiff ebol fod yn yr un partiwn â'r fam).
- Rhaid neilltuo hyn a hyn o le uwchlaw ysgwyddau'r ceffyl
- Ni chewch gludo mwy na phedwar o ferlod heb eu dofi gyda'i gilydd ac ni chewch eu cludo ar deithiau o fwy nag 8 awr ar y ffyrdd

- Rhaid rhoi sarn (gwellt ac ati) o dan ebol 4 mis oed ac oni bai ei fod yn teithio gyda'i fam, ni chewch gludo ebol ar daith o fwy nag 8 awr ar y ffyrdd